**Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl**

**Gofalwr Maeth Cymorth i Deuluoedd**

**Disgrifiad o'r Rôl**

**Trosolwg**

Mae'r gofalwyr maeth cymorth i deuluoedd (FSFCs) yn mentora'u teuluoedd ac yn cynnig seibiannau byrion i blant, gan gynnig sefydlogrwydd a rhoi amser i rieni fynd i'r afael â'u heriau gyda chymorth. Maent yn darparu adborth ynglŷn â'u cysylltiad â'r teuluoedd yn ystod cyfarfodydd adolygu.

Gallai'r Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd fod yn ofalwyr maeth profiadol yn y gwasanaeth sy'n dymuno datblygu'u sgiliau ac archwilio cyfleoedd newydd o fewn maethu. Neu fel arall, gellir eu recriwtio'n benodol i'r rôl hon yn Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl (SUSD) ond mae'n rhaid iddynt gael cymeradwyaeth cyn dechrau yn y rôl. Mae'n hollbwysig bod gan y Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd y sgiliau a'r ymrwymiad i weithio â'r ddau riant a phlant fel rhan o'r rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl (SUSD). Caiff disgrifiad o'r rôl ar gyfer y Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd ei gynnwys yn y pecyn hwn.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Yr agweddau allweddol o'r rôl yw:

- darparu cymorth mentora wythnosol i rieni yr atgyfeirir nhw i Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl. Mae yna uchafrif llwyth achosion o 4 teulu ar unrhyw adeg benodol.
- cynorthwyo'r teulu i osod ac adolygu nodau, gan ddefnyddio'n ap *Person Centred Planning* (Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion).
- darparu un seibiant byr wedi'i gynllunio bob mis ar gyfer pob un plentyn a atgyfeiriwyd.
- cynnig cymorth ymateb mewn argyfwng i deuluoedd ar ffurf galwadau ffôn, ymweliadau neu seibiannau byrion mewn argyfwng.
- mynychu hyfforddiant a ddarperir gan Y Rhwydwaith Maethu a'r Awdurdod Lleol, gan alluogi'r Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd i ddarparu hyfforddiant a chymorth i deuluoedd.
- cymorth â gweithgareddau teuluol, megis gwibdeithiau, gweithgareddau teuluol, cynlluniau'r haf a sesiynau preswyl.

Bydd hi'n ofynnol i'r Gofalwr Maeth Cymorth i Deuluoedd gofnodi manylion y cymorth a ddarperir, gan rannu â'r gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol fel y bo'n briodol. Yn ystod yr wythnosau y mae'r Gofalwr Maeth Cymorth i Deuluoedd wedi mynychu cyfarfod adolygu neu gymorth i deulu, ni fydd hi'n ofynnol iddynt gwblhau sesiwn fentora arall â'r teulu hwnnw.

## Gweithio â rhieni a theuluoedd

Atgyfeirir teuluoedd i Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl gan eu gweithiwr cymdeithasol. Mae'r cynllun yn wirfoddol, a chaiff teuluoedd eu grymuso i benderfynu p'un a oes arnynt eisiau'r cymorth. Mae gan gymorth 4 o brif agweddau:

- mentora i rieni;
- seibiannau byrion i blant;
- gweithgareddau teuluol;
- cymorth cymunedol.

Seilir Sesiynau Mentora Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl ar feysydd o angen canfyddadwy. Penderfynir ar y rhain drwy'r broses atgyfeirio a'r cyfarfod cynllunio cychwynnol, ac fe'u hadolygir bob tri mis drwy gydol cyfnod cymorth Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl. Y meysydd allweddol lle rhoddir cymorth yw: Rheolwaith, Cyllidebu, Byw'n Iach, Lles Meddwl a Chorfforol, Rheoli Ymddygiad, Mynediad at Gymorth, Perthnasoedd Teuluol, Ymdrin â Sefyllfaoedd Argyfwng, Chwarae ac Efelychu.

Bydd hi'n ofynnol hefyd i'r Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd roi diweddariadau a rhannu am gynnydd mewn cyfarfodydd adolygu. Yr wybodaeth ofynnol fydd:

- nifer o sesiynau mentora rhieni ers yr adolygiad Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl blaenorol (yn cynnwys diddymiadau), a manylion y gwaith a gwmpaswyd â'r rhiant;
- nifer o seibiannau bychain ers yr adolygiad blaenorol, a manylion gweithgareddau;
- unrhyw a phob cymorth arall a roddir i'r teulu.

## Cefnogaeth i'r Gofalwr Maeth Cymorth i Deuluoedd

Mae datblygiad a hunanofal personol yn bwysig, gan y gwyddom fod y cefnogwyr gorau yn cael eu cefnogi'n dda eu hunain. Mae yna amryw o ffyrdd y bydd Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn rhoi cymorth:

- Bydd yna oruchwyliaeth reolaidd lle y gallant drafod achosion cymhleth neu godi unrhyw faterion.
- Anogir Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd i fynychu hyfforddiant fydd yn eu cynorthwyo yn y rôl, a chymryd rôl weithredol mewn nodi beth ddylai'r hyfforddiant hwn fod.
- Trefnir sesiynau cymorth gofalwyr chwarterol i alluogi'r Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd ac aelodau eraill o dîm Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl gyfarfod a dysgu oddi wrth ein gilydd.
- Anogir Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd hefyd i ffurfio rhwydweithiau cefnogaeth gan gymheiriaid.